ADRODDIAD

Y

SWYDDOG MEDDYGOL

AR

GYFLWR IECHYD

DOSBARTH DINESIG LLANGEFNI

AM Y FLWYDDYN 1971

GAN GORFFORI ADRODDIAD

Y

SWYDDOG IECHYD

JOHN GRIFFITHS, M.R.S.H., M.A.P.H.I.

DYFYNIAD O YSTADEGAU BYWYD A IECHYD

YSTADEGAU CYFFREDINOL

Aceri Arwynebedd	2,510
Amcangyfrif y Cofrestrydd Cyffredinol o'r boblogaeth ynghanol y flwyddyn 1971	3,930
Cyfrif Poblogaeth 1970	3,870
Rhif tai Cyngor	826
Rhif tai preswyliedig	1,295
Gwerth mewn treth	£131,133
Swm cynnyrch o dreth geiniog	£529

YSTADEGAU BYWYD

Genedigaethau Bywanedig

	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Cyfreithlon	39	40	79
Anghyfreithlon	3	2	5
	42	42	84

Graddeg genedigaethau yn ol y fil o amcangyfrif y boblogaeth oedd 21.4
Graddeg genedigaethau am y flwyddyn 1960 - 17.00; 1971 - 20.4.
Graddeg genedigaethau y Sir oedd 18.00; Cymru a Lloegr 16.00
Graddeg genedigaethau gosodedig Llangefni am 1971 oedd 19.7

Genedigaethau Marwanedig

Gwryw	Benyw
1	-

Marwolaeth (Pob oed)

Cyfanswm - 44

Graddeg marwolaethau yn ol y fil o amcangyfrif y boblogaeth oedd 11.2
Marwolaeth gosodedig Llangefni am 1971 oedd 11.3; Sir Fon 12.2

Marwolaeth Mamol

Dim un.

Marwolaeth Babanod o dan flwydd oed

Gwryw	Benyw
-	3

Achosion marwolaeth gyda'r nifer yn y Dosbarth Dinesig;

Achos Marwolaeth	Gwryw	Benyw
Malignant Neoplasm, Stomach	1	1
Malignant Neoplasm, Lung, Bronchus	2	1
Malignant Neoplasm, Breast	-	1
Other Malignant Neoplasms	2	2
Other Diseases of Nervous System	-	1
Ischaemic heart disease	5	3
Other forms of heart disease	3	1
Cerebrovascular Disease	8	5
Other diseases of circulatory system	-	1
Bronchitis and Emphysema	1	-
Hyperplasia of prostrate	1	-
Congenital Anomalies	-	1
Motor Vehicle Accidents	1	2
All other accidents	-	1
TOTAL	24	20

Ataliad a rheolaeth Clefydau Heintus

Clefydau nodedig (ar wahan i Ddarfodedigaeth)

Infective Jaundice	2

Darfodedigaeth

Gwryw	Benyw
-	1

Buchfrechiad yn erbyn Darfodedigaeth

Mae'r buchfrechiad B.C.G. yn cael ei rhoddi gan Swyddog Meddygol Arbennig i'r ysgyfaint ac yn cyd-weithredu a Meddyg y Sir. Mae'r cynllun yn gofalu y caiff pob baban a enir i gartref lle mae darfodedigaeth yno ybuchfrechiad fel amddiffyniad rhag y clwy. Hefyd caiff y rhai sydd mewn cyffyrddiad a'r cleifion y buchfrechiad yma.

ADRODDIAD YR AROLYGYDD IECHYD AM Y FLWYDDYN 1971

TAI :

(a) Tai Cyngor :

Nifer y tai Cyngor ar derfyn y flwyddyn oedd 806, fel a ganlyn :-

	4 Llofft	3 ystafell wely Heb Barlwr	3 ystafell wely Parlwr	Ty unllawr	Dwy ystafell wely	Un Ystafell wely	Un ystafell	Sylwadau
Clwch		6	4					
Tai Dinas			8					
Ucheldre		14	16		12			+ Rhif 43/44 Cartref Plant
Isgraig	2		24		18			
Ger y Graig					9	28		+ Ystafell Ymelwy
Bron y Graig		24	17		34			
Stryd y Bont			12					
Maeshyfryd	4		36					Rhif 12 - Ty'r He
Dolafon	8		18		10			
Swn yr Afon					2			
Bron y Felin	2		20					
Corn Hir			12					
Pennant	7	18	35		8			Rhif 11 - Ty'r He
Capel Uchaf					12			
Pencraig		76	71	1	28			
Bro Tudur	2	43	20		5			
Lon Talwrn	2	12	2					
Plas Tudur					20	6		
Glan Cefni					3	17	8	+ Ystafell Ymelwy
Bryn Pandy		18						
Bron Dinas			20		8			
Bryn y Maen			12		4			
Felin Graig					8			
	27	211	327	1	181	51	8	

Y mae gan y Cyngor hefyd 6 o fflatiau ym Mhlas Pencraig a phum ty arall sef :- Pencraig Gardens, Felin Graig, Penrhos, Penrorsedd a Station House.

(b) Tai Preifat

Codwyd 48 o dai preifat newydd yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu a 47 yn 1970.

Gwellianau :

Preifat gyda chymorthdal :

Cwblhawyd dau gynllun, un yn teilyngu cymorthdal helaeth o £1,000 a'r llall yn werth £469.

Deddf Rhent, 1957 - Tystysgrif Cywair Drwg :

Ni wnaed un cais am dystysgrif felly i'r Cyngor.

Deddfau Tai :

Ni chafwyd achos i ddefnyddio rhybudd ffurfiol o dan y deddfau hyn.

BWYD :

(a) Tai Lladd :

Bu newid amlwg yng ngwaith y Lladd-dy yn ystod 1971 gyda lleihad yn nifer y gwartheg a laddwyd, ond cynnydd sylweddol yn y moch a'r defaid.

Nifer yr anifeiliaid a laddwyd o fewn y dosbarth :-

		1971	1970	1969	1968
Gwartheg	-	5,663	7,012	3,168	1,114
Lloi	-	13	13	20	22
Moch	-	7,829	5,546	3,890	2,619
Defaid	-	32,557	29,219	23,822	9,282

Cig Anaddas i'w fwyta :-

	Gwartheg	Moch	Defaid
Ysgerbydau (cyfan)	16	54	36
Ysgerbydau (rhan)	18	28	11
Ieuau (cyfan)	978	40	3,740
" (rhan)	168	-	-
Ysgyfaint (par)	16	3	-
Pennau a Thafodau	21	30	-
Calonnau	38	28	5
Arennau	4	2	-
Plyciau	-	558	137
Tafodau	4	-	-

Ymadawodd yr Archwiliwr Cig ddiwedd y flwyddyn wedi gwasanaethu am chwe mis.

Bwyd Anaddas :-

Derbyniwyd swm sylweddol o fwyd tun anaddas a chladdwyd hwy yn nhomen ysbwriel y Cyngor.

GLANWEITHDRA :

Nifer y siopau sydd yn gwerthu bwyd :-

Cigyddion	5
Groseriaid a siopau Ffrwythau	14
Siopau Teisennau a Melysion	8
Poptai	4
Tai Bwyta a Gwestai	10
Masnachdai a gofrestrwyd dan Adran 16 o'r Ddeddf Bwyd	3
Masnachdai a gofrestrwyd i werthu hufen ia.	15
Masnachdai a gofrestrwyd i Ffrio Pysgod	3

Ni allwyd ymweld yn gyson a'r adeiladau hyn, fel y dylid, oherwyddd pwysau gwaith, a bu rhaid bodloni ar alw pan godai rhyw agwedd arbennig oedd yn hawlio sylw.

CYWION IEIR :

Agorwyd ffatri newydd ar Fawrth 1af, 1971. Cyn diwedd y flwyddyn fe laddwyd 4,131,487 o gywion. Ildiwyd 23,496 am eu bod yn anaddas, cyfartaledd o 0.56%.

DIFA LLYGOD

Gwenwynwyd yn ol y galw gan gwmni Rentokil. Ein gofid mwyaf yw glannau'r afonydd a'r adeiladau gwag yn Heol y Bont.

Digitized by the Internet Archive
in 2016 with funding from
Wellcome Library

https://archive.org/details/b2885553x

DEDDF FFATRIOEDD :

Talwyd rhai ymweliadau uniongyrchol tra bu'r Archwiliwr Cig yma, a gofyn am sylw i rai diffygion.

DEDDF SWYDDFEYDD, SIOPAU AC EIDDO RHEILFFORDD :

Tabl 'A' - Cofrestru ac Archwiliadau Cyffredinol

Natur yr Eiddo	Nifer a gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn	Cyfanswm yr eiddo a gofrestrwyd ar ddiwedd y flwyddyn	Nifer yr Archwiliadau Cyffredinol
Swyddfeydd	2	27	2
Siopau yn manwerthu	3	50	3
Eiddo cyfanwerthwyr	-	4	-
Tai Bwyta	1	7	1
Lleoedd cadw tanwydd	-	-	-
Cyfanswm	6	88	6

Tabl 'B'

Nifer ymweliadau o bob math gan yr Arolygydd a'r eiddo uchod. = 80

Tabl 'C' - Dadansoddiad o'r nifer personnau a gyflogir.

Natur yr Eiddo	Nifer a gyflogir
Swyddfeydd	157
Siopau yn manwerthu	161
Eiddo cyfanwerthwyr	12
Tai bwyta (agored)	30
Lle bwyta (preifat)	-
Lleoedd cadw tanwydd	-
Cyfanswm	360

CARTHFFOSIAETH :

Dal i ddatblygu y mae'r Gwaith Carthffosi i gyfarfod ac anghenion y Dosbarth. Yr oedd ansawdd y rhediad dwr o'r gwaith yn foddhaol gydol yr hanner cyntaf, ond cafwyd peth trafferth yn ystod y tri mis diwethaf oherwydd y gwaith ar yr ychwanegiad.

CASGLU A CHAEL GWARED O YSBWRIEL :

Llwyddwyd i gyfarfod y galw hyd yma heb anhawsterau mawr.

ATODIAD

DEDDF FFATRIOEDD

(i) Ffatrioedd lle gweinyddir Adran 1,2, 3,4 a 6 gan y Cyngor lleol.	Dim
(ii) Ffatrioedd arwahan i (i) lle gweinyddir Adran 7 gan y Cyngor lleol	23
(iii) Safleoedd eraill lle gweinyddir Adran 7 gan y Cyngor lleol.	2
Cyfanswm	25